Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru

Rhagair i'r Strategaeth Gwella Iechyd a Diogelwch yng Nghymru

Mae datblygiad y Strategaeth hon yn enghraifft arall o'r modd y mae Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd awdurdodau lleol Cymru'n dal i archwilio cyfleoedd i weithio'n gydweithrediadol ac yn greadigol. Mae'n cydnabod ei bod yn bwysig bod y fframwaith rheoliadol yn gyson ac yn dryloyw ond ei fod hefyd yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth i wella ffyniant economaidd ac iechyd yng Nghymru.

Er bod y rhan fwyaf o fusnesau'n cydnabod bod cynnal gweithleoedd diogel ac iach yn gwneud perffaith synnwyr yn fasnachol, mae sicrhau bod trefn orfodaeth briodol ar waith i fynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae perygl i iechyd a diogelwch o fantais i bawb. Drwy gydnabod yr arferion gorau a'u derbyn, bydd modd gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ar y cyd arbenigrwydd sydd i'w gael ym maes gorfodaeth yng Nghymru.

Mae Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru wedi ei ymrwymo i gefnogi egwyddorion "*Her Iechyd Cymru*". Er mwyn cyflawni'r targedau cynnydd mewn iechyd mae'n hanfodol ystyried ffyrdd newydd o weithio a meithrin dulliau hyblyg i ymdrin â'r gweithle modern, newidiadau mewn arferion gwaith a'r risgiau sy'n codi.

Mae'r "Strategaeth Gwella Iechyd a Diogelwch yng Nghymru" yn cynnig sylfaen gadarn dros gyswllt agosach a gweithio mewn partneriaeth yn well at y dyfodol sy'n argoeli'n dda ar gyfer busnesau a gweithwyr fel ei gilydd.

Huw Williams

Cadeirydd, Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru